 Hyd atynt hwy, a'i olwg or-bryderus,
 Yn profi fod ei fynwes yn gythryblus,
 Yn fuan, er prysured oedd Syr Nicholas

Fe lon-gyfarchai'r Cadben Evan Thomas,
 Gan holi'r achos fod tristâol bryder,
 Ar wyneb a arferai wisgo llonder :
 " Holl faich fy mhryder," meddai'r Cadben Thomas,
 " Yw baich fy nghanadwri i Syr Nicholas.
 Syr Edmund Stradling, Farchog, archodd imi
 Garlamu gyda brys tua Chefn Mabli,
 I geisio genyt drefnu'th feirchlu enwog,
 A'i arwain i Gaerdydd yn hynod frysioeg.
 Daeth *Llaeyd o'r Brunant*, ac ychydig ddewrion, (4)
 I'r gwersyll neithiwr : dywed ef fod Horton
 Yn arwain byddin o'r Pengryniaid atgas
 Yn awr i bwynt Caerdydd, er gwneyd galanas.
 Clyw etto, Syr, y mae egwyddor afiach
 Yn llechu'n nghanlon *Prichard o Lancaiaich*. (5)
 Er rhoi Caerdydd a'i chastell i'w gadwraeth
 I'w dal i'w deyrn, cyflawnodd deyrnfradwriaeth ;
 Mae wedi troi yn erch deyrnfradwr cethin,
 A'r Castell ddeil yn awr,—ond nid i'r Brenin.
 Gwaeth etto, Syr, mae'n dal gohebiaeth gyson
 Mewn dirgel ddull â byddin y gelynion ;
 Am hyn dymunir arnat ti a'th filwyr
 I ddyfod i ddarostwng y teyrnfradwyr."

Gwrandawai'r Marchog hyn mewn difrifoldeb,
 A gwg ymdaenai'n gwmwl dros ei wyneb,
 A chyda llais ail taran yn yr awyr,
 Fel hyn cyfurchai'r cawr ei hyfion filwyr :—
 " Fy newrion filwyr, cryfder gwlad Essyllwg—
 Rhagoraf feibion Mynwy a Morganwg—
 Olynwyr Morgan Mawr, ac Ifor Gadarn—
 Bechgyn y giau pres, a'r esgyrn haiarn—
 Fe roddir ichwi gyfle teg ar fyrder
 I brofi'ch nerth, a dangos eich gwrolder ;
 Tua thref Caerdydd arweiniaf chwi yr awrhon,
 Ac yno darniwn fyddin y gelynion."

CANIAD II.

CYNWYSIAD.

Y pleidiau breninol yn cydgyfarfod ger Caerdydd—Y Swyddogion yn cynnal cynghor rhyfel—Cad-gynllun ein harwr yn cael ei gymmeradwyo—Cenad brysiog yn eu hysbysu fod Horton a'i fyddin yn dyfod o gyfeiriad y gogledd—Y Cynghreiriaid yn myned i'w gyfarfod—Brwydr St. Ffagan.

Ger tref Caerdydd cyfarfu'r holl gynghreiriaid
A'u gilydd, gyda'u lluoedd fel gwroniaid,
Yn or-awyddus am gael un cyfleustra
I brofi eu galluoedd mewn ymdrechfa.
Arwyddai y llumanau, bod y lluoedd
Yn gydgrynöad nerth gwahanol siroedd
Deheudir Cymru, a phob sir am honi,
Mai hi a feddai îwyaf o wrhydri,
A'r oll am uno eu gwrhydri nerthol,
Er rhoddi i'r Pengryniaid ddyrnod farwol.
Dan Faner Penfro'n llywio'i ddewr-wych adran,
Y gwelid y Milwriad medrus *Wgan* ;
A'r glew *Marmaduke Lloyd* o Faesyfelin, (6)
Dan faner Ceredigion gyda'i fyddin ;
A Llwyd o'r Brunant, a'i wroniaid dewrwedd,
Dan faner Sir Gaerfyrddin, i'w hanrhydedd :
Ac yntau *Laugharne* hyf a'i fyddin enwog, (7)
Edrychent oll yn heinif a chalonog ;
A phendefigion gwlad Essyllwg, hwythau
A'u lluoedd gwhwfanent eu banerau—
Syr Edward Carne, Syr Edmund Stradling hefyd,
A'u miloedd oeddynt mewn hoenusrwydd hyfryd,
Ond nid oedd yn eu plith un gwr mwy medrus,
Na mwy teyrngarol na Syr Nicholas Kemeys.

Am ennyd ymneillduodd y Barwniaid,

Mewn cynghor rhyfel gyda'u gwych gadbeniaid,
 I benderfynu'r effeithiolaf gynllun
 Er sicrhau gorchfygiad llwyr y gelyn.
 Yn fuan penderfynwyd yn unfrydol,
 Fod cynllun Kemeys yn un gwych rhagorol,
 Sef uno eu byddinoedd fel cynghreiriaid,
 A chychwyn i gyfarfod y Pengryniaid
 Dan lywiad Horton, rhag i'w fyddin nesu
 Hyd dref Caerdydd, a chael ei hadgyfnerthu
 Gan y teyrnfradwr *Prichard*, a'r Castellwyr,
 Y rhai fel ef, a droisant yn deyrnfradwyr ;
 Ac yna, wedi llwyr orchfygu Horton,
 Meddianu'r Castell, neu ei ddarnio'n yfflon.
 Pan oeddynt hwy yn penderfynu'r cynllun,
 Daeth Matthew o Landaf i'w plith mewn dychryn,
 Gan ddweyd fod Horton, gyda llu y Senedd,
 Yn d'od fel corwynt cryf o bwynt y gogledd.
 Heb golli amser, hwythau a drefnasant
 Eu lluoedd nerthol, ac a gychwynasant
 I gwrdd a'r gelyn megys llu o lewod,
 Gan benderfynu rhoddi marwol ddyrnod
 I allu'r Senedd, a mawrhau yr Orsedd,
 Trwy fynu buddugoliaeth i'w hanrhydedd.
 Blaenorid hwy gan fyddin enwog Laugharne,
 O dan arweiniad ei chad-lywydd cadarn,
 A theichiai'r miloedd yn y blaen yn wrol,
 Gan benderfynu dryllio'r llu Seneddol,
 Yr hwn a'u cyfarfyddodd hwy yn fuan,
 I ymladd byth gofiadwy

FRWYDR ST. FFAGAN. (8)

Yn mlaen yn bwylllog deuai y gelynyon,
 O dan arweiniad y Maeslywydd Horton ;
 Yr oedd eu hagwedd ddifraw, a'u trefnusrwydd,
 Yn brawf eu bod yn filwyr hen gyfarwydd

A maes y frwydr, ac yr oedd pob gwyneb,
 Yn dangos penderfyniad, a gwroldeb.
 Ar feirch golygus gwelid *Cadben Godfrey*, (9)
 Yn nghyda'r dewr filwriad enwog *Oakey*; (10)
 Yr aden ddeau a arweiniai'r blaenaf
 A'r aswy a lywyddid gan yr olaf,
 A'r ganol fyddin dan lywyddiad Horton,
 A'i gynnorthwy-ydd yr Uwch-gadben *Barton*,
 Tra'r *Cadben Garland*, gyda'i adran yntau,
 Yn medrus lywodraethu'r tân-beiriannau :
 A'r Cadben *Mercer*, gyda rhwysg fel gwron,
 Flaenorai gatrawd gref o wych farchogion.
 Edrychai byddin Horton gyda chilwg
 Bryderus, ar wroniaid dewr Essyllwg,
 Er hyn, yr adgof am eu llwydd blaenorol,
 A grëai ynddynt hyder calonogol ;
 A phenderfynent fynu buddugoliaeth
 Ar bawb a feiddient bleidio Teyrn-Ormesiaeth.

I ddechreu'r ymladdfa rhoes Horton orchymyn
 I'w filwyr i danio ar luoedd y gelyn,
 Atebwyd mewn eiliad gan Laugharne a'i fyddin,
 Y rhai a flaenorent ganol-gorff llu'r Brenin ;
 Tra Carne, gyda Stradling, a'u milwyr herfeiddiol,
 Chwyrn ruthrent yn mlaen ar y tu gorllewinol,
 Yn erbyn llu Oakey, yr hwn a ymdrechai
 Feddianu pob mantais hyd lan afon Elai ;
 A gwelid Syr Nicholas, a'i feirchlu'n ei ganlyn,
 Ar ddwyrain y maes yn gwynebu y gelyn—
 “ Fy milwyr,” crochfloeddi, “ canlynwch eich llywydd,
 A gwnawn i ni enw a bery'n dragywydd—
 Dadblygwn ein gallu—dynoethwn ein harfau.
 A chuddiwn y meusydd â gwael gelaneddau—
 Cyd-ruthrwn, fy newrion, yn awr, ac ymladdwn
 Dan faner ein Brenin fel ffyrnig ddywalgwn.”

Ar hyn wele gyffro, a rhuthrodd y cawrddyn
 A'i feirchlu'n galonog ar rengoedd y gelyn,
 Y rhai a lywyddid gan Godfrey'n ddeheuig,
 A buan ai'r brwydro yn boeth ac yn ffyrnig.
 Dan Godfrey ymladdai y milwyr Seneddol,
 Yn gryfion a beiddgar, a thra phenderfynol,
 Ond gyrodd ein harwr a'i wyr i'w catrodau
 Yn öfn, gan dori y rhengoedd yn fylchau.
 Ysgogai Syr Nicholas ei gleddyf mawr miniog,
 Yn nerthol a chwim fel fflachiadau melltenog ;
 Ar aswy a deau tarawai'r gelynion,
 A syrthient fel delwau o dan ei ergydion ;
 A'i filwyr ddilynent esiamplau Syr Nicholas—
 Ymladdent fel gwaedgwn ar faes y galanas.
 Am enyd gorfodent yr aden ddwyreiniol
 I'r gelyn i syrthio yn ol yn ddireol.
 Ond Horton lygadgraff i'r adwy garlamodd,
 A chyda buandra yr aden ad-drefnodd ;
 A Garland a ddaeth a'i beirianau dinystriol,
 I roi adgytnerthiad i'r aden ddwyreiniol.
 Pan welodd ein harwr yr amcan, ffyrnigodd
 Ei ysbryd, a'i yni blaenorol a ddyblodd—
 A'i gleddyf awchlymog fe fedai'r gelynion—
 Gwnaeth lwybr trwy eu canol yn mlaen hyd at Horton,
 A thra'r oedd ar daro ei gleddyf trwy'i fywyd,
 Cyfryngwyd gan Bradshaw —derbyniodd yr ergyd,
 A threngodd mewn eiliad, ai ben wedi hollti,
 A syrthiodd yn gelain i beidio cyfodi.
 Ond cyn cael ail fantais i gynyg at Horton,
 Ymwasgai'r gelynion o amgylch ein gwron,
 Gan lwyr benderfynu rhoi terfyn i'w yrfa,
 A gwneuthur ei gelain i'w cadfeirch yn sathrfa ;
 Ond trwy ei rymusder anhygoel fe lwyddodd
 I weithio'i ffordd trwyddynt, a'i fyddin gyrhaeddodd
 Yn iach a dianaf, fel o safn marwolaeth,

Ac angau a siomwyd—fe gollodd ysglyfaeth :
 A'r gwron drachefn a lywyddai ei fyddin,
 A rhuthrent i'r rhengoedd gelynol i'r brenin.

Ond Godfrey ar ol cael y llu adgyfnerthol,
 Osododd ei adran mewn ffurf ymosodol,
 A thrwy hyf ymdrechion, ei filwyr lwyddasant
 I raddol ad-enill y tir a gollasant ;
 A thra, yr ymladdent, ffyrnicach, ffyrnicach,
 Ai byddin ein harwr deneuach, deneuach ;
 Ond er ei gyfyngder, a'i ddewraidd ymdrechion,
 Nid oedd ganddo obaith am gael adgyfnerthion ;
 Tra drôs yr holl faes yr oedd brwydr gyffredinol,
 A phob gwr o'r ddwyblaid mewn ymdrech egnïol—
 Chwyrnellai'r pelenau fel cenllysg trwy'r awyr,
 Gan daenu marwolaeth i rengoedd y milwyr ;
 A'r miloedd cleddyfau ddefnyddid yn helaeth,
 I agor tramwyfa i gerbyd marwolaeth.

Llu Oakey trwy egni ymdrechol a yrai
 Y fyddin dan Stradling mewn annhrefn i'r Elai,
 A'i dyfroedd a gochwyd gan waed yr Essyllwyr,
 A'u llefau wylofus a feichient yr awyr.
 Llu Laugharne a Gamage ymladdent yn ddewrion,
 A'r fyddin Seneddol dan Horton a Barton ;
 Ond ar ol hir frwydro, fe welwyd y fantol
 Yn troi yn y diwedd o du'r llu Seneddol ;
 A buan gorphenwyd yr erchyll gyflafan
 Gyflawnwyd yn Mrwydr fythgofus St. Ffagan.

Y maes a orchuddiwyd â chyrrff lladdedigion,
 Yn gymysg blith-draphlith â'r blin glwyfedigion ;
 A gwaed eu calonau yn ffrydiau a redai
 I ruddo y gwelltglas, a chwyddo yr Elai.
 Ac o'r llu breninol, caed rhes o'r llywyddion,

Yn gorfod ymostwng i warth carcharorion ;
 Ond ni allai'n harwr byth oddef y syniad,
 O roddi ei hun yn garcharor am eiliad.
 Ac er nad oedd ganddo ychwaneg nag hanner
 Ei gatrawd yn ngweddill, ni syflodd ei ddewrder ;
 Ac er fod llu Godfrey'n ymosod yn greulon,
 Gan dderbyn i'w rengau'n barhaus adgyfnerthion,
 Fe gadwodd ein harwr ei faner i fyny,
 Er gorfod rhoi ffordd o flaen nerthol lu Godfrey ;
 A gweddill ei fyddin a gadwodd yn drefnus,
 Gan wneyd ei enciliad trwy bwyll yn llwyddianus.



CANIAD III.

CYNWYSIAD.

Syr Nicholas, ar ol llwyddo i encilio gyda'i fyddin dros Bont Llandaf, yn ga y Rhes, ac yn cael allan fod Charles ei fab yn eisiau—Y galar am dano—Yn penderfynu ymosod ar Gasgwent—Myned tua Chefn Mabli i barotoi—Charles yn gwneyd ei ymddangosiad annisgwyladwy, ac yn adrodd pa fodd y diangodd—Ein harwr a'i fyddin yn cychwyn tua Mathern, ac yn cael eu croesawi yn mhalas yr Esgob.

Ar ol i'r marchog dewr a'i fyddin fechan,
Encilio'n drefnus o'r greulonaidd gad ;
Ni lwfrhâodd, ond enynai'i anian
Yn fflam anngherddol o blaid teyrn y wlad :
Er iddo golli haner ei hoff fyddin
Ar waedlyd Faes St. Efaga, etto'i gyd
Yr oedd ei ffydd yn llwyddiant plaid y Brenin,
Yn dal heb ysgog, fel y graig o hyd.

Ac wedi iddo lwyddo dwyn ei bum cant.
Yn groes i Bont Llandaf i gyd yn iach,
Arosodd enyd er ei ing a'i siomiant,
I alw'r Rhes yn nghlyw ei fyddin fach :
A phan orphenwyd galw'r llechres enwau,
Gan fyned yn dra manwl dros yr oll,
Yn mhlith y lluaws dewrion oedd yn eisiau,
Yr oedd ei anwyl Charles—ei fab ar goll !

Yr ydoedd Charles pan welwyd ef ddiweddaf,
Mewn tyn ymladdfa â'r banerwr Crane,
A'r milwr hwnw fel yn cael y trechaf
Ar y boneddwr ieuanc, hyf a glân :
Ac er mor hynod stoicaidd oedd teimladau
Syr Nicholas Kemeys, yn erchylldra'r gad,
Fe barodd hyn i gawod drom o ddagrau
Roi prawf y meddai dyner galon tad.

Yr oedd arwyddion amlwg ar ei wyneb,
 Fod storm yn chwyddo yn ei fynwes ef,
 A hono yn cynnyddu mewn gerwindeb,
 Nes tori allan mewn cynhyrfus lef :—
 “ Fy milwyr,” meddai, “ mae fy nghalon weithian
 Yn llawn o'r wermwd chwerwaf sydd yn bod ;
 Ond mynaf etto ddial gwaed St. Ffagan,
 A'ch codi chwithau i binaclau clod.

“ Os aeth fy mab yn aberth dros ei frenin—
 Os syrthiodd fy newrolion yn eu gwaith,
 Eu gwaed ddialwn fy hoffusaf fyddin—
 Hyn ydyw'r unig falm dry'n clwyf yn graith :
 Er nad yw'n rhif presenol ond ychydig,
 Yr wyf yn gweled heddyw'n eithaf clir,
 Nad ymddibyna llwydd ar rif yn unig,
 A hyny fynwn brofi cyn pen hir.”

Ar ol llefaru hyn, fe satodd wedyn
 Mewn dwfn fyfyrdod, cyn parhau y daith,
 Er ceisio penderfynu ar y cynllun,
 A'r liwybr goraf i gyflawni'r gwaith :
 Er mawr awyddu gwneyd—fe farnai'n ddoethach
 I beidio cynyg rhuthrgyrch ar Gaerdydd,
 Ond credai mai brad Prichard o Lancaiach
 Fu'r achos i'r breninlu golli'r dydd.

Tra y myfyriai, saethodd idd ei feddwl
 Ryw syniad ffodus, megys toriad gwawr,
 Neu glaer dywyniad haul trwy ffenestr cwmw
 Fo'n taflu ei brudd gysgod dros y ilawr :
 “ Os aeth Caerdydd,” eb ef, “ Prif Gaer Morganwg,
 Yn feddiant i'r gelynyion trwy law brad,
 Mi fynaf finau, trwy orchfygiad amlwg,
 Feddianu Castell Gwent i deyrn fy ngwlad.

“ Er fod *Syr Trefor Williams* o Langybi (11)
 Yn frawd i'm gwraig, teyrnfradwr creulawn yw,
 Ac fel y cyfryw, rhaid ei gyfiawn gospi—
 Ni ddylai'r un teyrnfradwr brwnt gael byw :
 Os yw yn tybied bod Casgwent yn ddiogel
 Dan ei gadwraeth ef a'i fyddin wael,
 Caiff chwerw sicm, a siomiant erch i Cromwell
 Fydd colli' Castell Gwent ar ol ei gael.”

Ar ol llefaru hyn, yr enwog lywydd
 A'i fintai symudasant yn y blaen,
 Gan deithio'n frysioeg heibio'r Eglwys Newydd,
 Ac hefyd heibio pentref iach Llysaen :
 A phan gyrhaeddwyd palas gwych Cefn Mabli
 Dros wyneb anian tynid lleni'r hwyr,
 Tra'r milwyr am orphwysfa'n gor-awyddu,
 A'r meirch gan ludded wedi blino'n llwyr.

Ond yno fe agorwyd drws ymgeledd'
 O led y pen, i'w derbyn hwy mewn hedd ;
 Ond pan ddadlenwyd tynged yr etifedd,
 Galarai'r teulu fel pe uwch ei fedd :
 Rhy floesg yw tafod taith i roi darluniad
 O ddirdyniadol ing ei chwaer a'i fam,
 Tra ceisiai'r Marchog ragod ffrwd ei deimlad,
 Gan benderfynu dial am y cam.

Y noson hono dreuliwd megys gwylnos,
 Mewn tristwch mawr am yr etifedd mad,
 Ac nid oedd ty'n yr ardal heb wir achos
 Galaru am rai laddwyd yn y gad ;
 Er hyn awyddai'r milwyr oedd yn ngweddill
 Am le i ddial, trwy ddadblygu'u dawn,
 A phenderfynent feirw oll, neu enill
 I'w catrawd fechan lawryf concwest lawn.

Ar ol treulio'r nos mewn cymysglyd deimladau,
 Heb roi ond ychydig o hun i'w hamrantau,
 A'r hun hono eilwaith yn llawn o freuddwydion
 Am faes y gyflafan a ffyrnig elynion,
 Pan gododd haul tranoeth dros erchwyn y dwyrain,
 Er myned i'w daith yn ei gerbyd aur mirain,
 A balmaidd awelon mis Mai yn ysgogi
 Dail ieuainc y gwigoedd o gwmpas Cefu Mabli,
 Deffrowyd y teulu gan fanllef y gwylwyr,
 Ac ar yr un eiliad deffrowyd y milwyr,
 A thristwch y teulu a droes yn orfoledd,
 Pan safai o'i flaen y colledig etifedd,
 Yn fyw a dianaf—yn siriol a hoenus,
 A'i gleddyf yn finiog, a'i freichiau yn rymus ;
 A'i weled a barai y fath synedigaeth
 A phe dychwelasai o grafanc marwolaeth ;
 A mwy o lawenydd ni chawsai y teulu,
 Pe o blith y meirw codasai i fyny.
 Yn nghanol y llonder, ei dad a ddymunai
 Gael gwybod yr helynt pa fodd diangasai ;
 Ac yntau adroddodd yn hynod ddyddorol,
 Yn nghlyw'r gwyddfodolion yr hanes canlynol :—

“ Yn mhoethder yr ymladd, pan welais y faner
 Seneddol yn ymyl, anturiais mewn hyder,
 I geisio'i meddianu, trwy ladd y banerwr,
 Yr hwn a droes allan yn nerthol ryfelwr.
 Defnyddiai ei gleddyf fel milwr cyfarwydd,
 A gwyddai'r gelfyddyd o'i drin i berffeithrwydd ;
 Ac er i mi dreisio gwahanol arferion,
 Fe lwyddai i gadw yn ol fy ergydion ;
 A thra yr ymdrechwn fy ngoreu i'w drechu,
 Yr oeddwn yn teimlo fy mraich yn gwanychu,
 A'i fraich yntau'n para o hyd yn rymusol,
 A gwasgodd fy nghleddyf i ffurf anfanteisiol ;

Ac felly fe lwyddodd i'm analluogi,
 Ac yntau ymwithiai yn mlaen a'i holl egni,
 Ond pan oedd a'i gleddyf i fyny i'm taro,
 Daeth pelen a lladdodd ei geffyl o dano,
 A chyn iddo dynu ei draed o'r gwartholion
 Yr oedd blaen fy nghleddyf i mewn yn ei galon.
 Ond pan yr estynais fy llaw at y faner,
 I'w chipio yn yspail i'n catrawd heb bryder,
 Pryd hyny deallais eich bod yn encilio
 Tra torf o'r gelynyon hyd ataf yn rhuthro ;
 Oud llwyddais yn ffodus i ffoi yn ddiangol,
 Trwy nerth a buandra fy nghadfarch rhagorol ;
 Ac ar ol marchogaeth am oriau yn grwydrol,
 O'r diwedd anturiais i'r Eglwys Gadeiriol ;
 Lle cefais fy noddi, a'm cuddio'n y gangell,
 Nes aeth y nos neithiwr yn hwyr ac yn dywell
 Ac ar ol canol-nos, cychwynais yn ddirgel.
 A llwyddais i gyrhaedd fy nghartref yn ddiogel."

Yr hanes oedd fel olew ar archollion,
 A drych i weled nad oedd y gelynyon
 Ar hyd y ffordd, fel gwaedgwn yn arogl
 Y gatrawd enciliedig i Gefn Mabli ;
 A chliriodd hyn awyrgylch eu meddyliau,
 A chrëodd yni yn eu holl aelodau,
 I wneyd y darpariadau angenrheidiol,
 Ar gyfer gweithrediadau y dyfodol
 Ar Gastell Gwent, a threuliwyd y diwrnod
 I gasglu nerth a anfarwolai'r ddymnod.
 O dawdd-dy Marchog gwych y Van caed megnyl
 Y rhai fytheirient fel dinystriol engyl,
 Yn nghyda llwythi meni o belenau,
 I'w chwydu allan o'u dinystriol safnau:
 Yr oedd y megnyl o'r gwneuthuriad goraf,
 I gyd yn ol yr arddull diweddaraf,

Ac wedi eu llwyr orphen yn ardderchog,
 Yn ngweithfa'r gwyth *Syr Edward Lewis, Farchog.* (12)
 Ac wedi cael y darpariadau'n barod,
 Syr Nicholas gyda'i fyddin megys llewod,
 A gychwynasant idd eu taith yn wrol,
 Gan benderfynu gwneuthur gwaith arwrol ;
 A chyrhaeddasant *Mathern* yn llwyddianus, (13)
 A'r Esgob a'n derbyniodd yn groesawus ;
 A rhoes y palas iddynt yn wersyllfa,
 I'w droi yn gadlys ac yn amddiffynfa ;
 A'r Marchog benderfynai ei amddiffyn,
 Rhag derbyn unrhyw niwed ar law'r gelyn,
 A'i droi'n fanteisiol iddo ef a'i fyddin,
 I wneyd Casgwent yn eiddo idd ei Frenin :
 Ond gwelai fod yn rhaid gweithredu'n gyfrwys,
 A rhoi diwrnod idd ei filwyr orphwys
 Ar ol y daith, fel gallent fod yn gryfion
 A hoenus, i wynebu y gelynion.
 Ac hefyd anfon i Gasgwent yspïwyr
 Dirgelaidd, er cael allan nerth y milwyr
 Oedd yno gan Syr Trefor yn amddiffyn
 Y Castell, gan ei ddal yn eiddo'r gelyn.
 Anfonwyd hwy, tra'r fyddin a Syr Nicholas
 Dreuliasant y diwrnod yn y palas.
 Yn min yr hwyr dychwelodd yr yspïwyr
 A'r hanes am sefyllfa y castellwyr,
 Dywedent fod llawenydd di lywodraeth
 Yn Nghastell Gwent, o herwydd buddugoliaeth
 Lwyddianus llu y Senedd yn St. Ffagan,
 A bod holl glych y lle mewn hwylus gydgan.
 Gwrandawai'n harwr hyn yn hynod astud,
 A gwg ymdaenai dros ei holl wynebpryd ;
 Ac yn y man dywedai yn bwysleisiol :—
 “ Ni fydd eu llonder hwy ond byr barhäol,
 Fel fflachiad mellten ar dywyll-nos stormus,

I ddangos gwedd y dymhestl yn fwy echrys;
Fel Cyrus gynt, ar noson gwledd Belsassar,
Yn troi'r llawenydd oll yn ing a galar.
Cyn nos y fory, tröaf finau londer
Syr Trefor a'i ganlynwyr, oll yn chwerwder;
A thyngu'r wyf, yn enw'm teyrn a'm llywydd,
Mai heno fydd nos olaf eu llawenydd."



CANIAD IV.

CYNWYSIAD.

Syr Nicholas a'i fyddin yn manteisio ar y nos, i fyned o Mathern i Gasgwent—
Llwyddo i fyned, i threfnu y magnelau, &c., mewn lleoedd manteisiol cyn
toriad gwawr—Y cyffro yn y Castell pan ddeallwyd fod y lle dan warchae—
Dechreu yr ymosodiad—Ffyrnigrwydd yr ymladdfa—Buŵdugoliaeth y
breninlu.

Yn mhalas Mathern, parod oedd pob milwr,
I gychwyn at ei waith ar arch ein harwr ;
Ond treuliwyd oriau hirion mewn cryn bryder ;
I wyllo'r nos yn treulio hyd ei haner ;
Ac yna rhoes Syr Nicholas y gorchymyn
I'w fyddin ddyfod allan, gan ei ganlyn
Yn ddystaw hyd Gasgwent, er rhoi'r magnelau
Mewn lleoedd gwir fanteisiol cyn y borau ;
A threfnu'r llu, fel gallent ar darawiad
Ymosod ar y lle o dri chyfeiriad.
Bu ffawd o'u tu, a buont yn llwyddianus
I gyrhaedd yno, a rhoi'r oll yn drefnus
Cyn toriad gwawr, pryd hyn darganfu'r gwylwyr
Fod llu o'u cwmpas o elynol filwyr ;
Rhoed arwydd buan i'r gwarchodlu'i ddeffro,
Ac ar darawiad wele ddirfawr gyffro
O fewn y Castell—brysient at eu harfau,
A rhuthrent bawb i'w lleoedd ar y muriau :
Syr Trefor hefyd ruthrodd fel mewn dychryn,
A gwelodd mai Syr Nicholas oedd ei elyn !
Ac er y gwyddai am ei gadarn allu,
Ni threuliwyd ganddo eiliad i bryderu,
Ond penderfynodd ymladd hyd y diwedd,
Er cadw Castell Gwent yn eiddo'r Senedd.

Dechreuwyd y rhuthrgyrch ar lasiad y borau,
 A ffyrnig parhaodd yr ymladd am oriau,
 O ddrylliau'r gwarchodlu cawodau galanas,
 Ddisgynent yn drymion ar fyddin Syr Nicholas,
 Gan gwympo y cedyrn, a bylchu y rhengau,
 Tra'r oeddynt yn ymladd fel nifer o ddreigiau ;
 Ond pan ddaeth y megnyl i ddechreu gweithredu,
 Gan daflu erch ddinystr i blith y gwarchodlu,
 Dyrüent yn groch fel cynhyrfus daranau,
 A fflamawg fellt rhyfel ymsaethent o'u safnau—
 Pob magnel chwyrn daflai haiarn-fyllt dinystriol
 I rengau'r gwarchodlu'n genadau angeuol ;
 A muriau y castell, er maint eu cadernid,
 Gan haiarn belenau'r magnelau falurid :
 Er hyny, ymladdai'r Castellwyr fel llewod,
 Ac ar y Breninlu cyflawnt erch ddifrod.
 Syr Trefor lywyddai'r gwarchodlu'n ddeheug,
 A'r brwydro gynnyddai yn boeth ac yn ffyrnig ;
 Ac wrth wel'd cynnifer o'r dewrion yn syrthio,
 Bu agos i'r fyddin freninol encilio ;
 Ond pan oedd ei fyddin ar drothwy enciliad,
 Fe ganfu ein harwr y perygl mewn eiliad ;
 A bloeddiodd yn groch ar i'w filwyr egnio,
 Fod gwawr buddugoliaeth yn dechreu goleuo :
 A'i lais a drydanodd holl yni ei filwyr,
 I danio'n gyflymach ar rengau'r Castellwyr—
 Tarawodd un belen y faner Seneddol
 O ben twr y Castell, a syrthiodd i'r heol,
 Yr hyn galonogodd ein harwr a'i fyddin,
 I ymladd yn ddewrach dan faner y Brenin,
 A chyda beiddgarwch arwrol ar eiliad
 Fe barodd i'w fyddin wneyd cyflym symudiad,
 A gwthient yn mlaen yn llwyddianus am enyd,
 Ond gwelid hwy'n fuan yn gorfod dychwelyd,
 A drylliau'r gwarchodlu yn tywallt cawodau

A blwm idd eu plith, gan deneuo y rhengau :
 Er hyn bu'r symudiad yn foddion effeithiol
 I, gael y magnelau i le mwy manteisiol,
 I wneuthur erch ddifrod ar fyddin y gelyn,
 A dwyn yr ymladdfa yn fuan i derfyn.
 Pysurid y tanio, a phelau'r magnelau
 Ysgubent lu'r Senedd, a dryllient y muriau ;
 A buan ddystawyd rhych-ddrylliau'r gwarchodlu,
 Tra nifer y meirwon yn cyflym gynnyddu ;
 A gwelodd Syr Trefor, a'r gweddill o'i fyddin,
 Fod ffawd buddugoliaeth o du llu y Brenin ;
 A buan codasant hedd-faner i fyny,
 A'r tanio'n ddisymwth attaliwyd o bobtu.
 Ar hyn aeth Syr Trefor i ben un o'r tyrau
 I anerch ein harwr, a cheisio ammodau—
 Cynygiai' roi'r Castell i fyny yn fuan,
 Os rhoi'd caniatad iddo fyn'd a'i wyr allan. .
 I'r cais, i'w anrhydedd, atebodd y Marchog
 Y caent fyned allan, ond oll yn anarfog—
 Nas gwnai ganiatau iddynt ddwyn ymaith arfau
 O'r Castell, nac ymborth, na chad-ddarpariadau :
 Mai'r unig delerau awnai iddynt addaw,
 Oedd myned o'r Gastell mewn heddwch yn waglaw.
 Er fod yr ammodau yn gelyd i'r teimlad,
 Nis gallent eu gwrthod er maint y diraddiad ;
 Ac felly heb oedi y glewion warchodlu,
 Roddasant eu harfau i lawr i'r Breninlu,
 Ac yn mhen ychydig, fe'u gwelid yn llinell
 Anarfog, yn canlyn Syr Trefor o'r Castell,
 Yr hwn yn ei drallod, a'i galon ar dori,
 Arweiniodd ei wyr tua Chastell Llanybi.
 A'u lle yn Nghasgwent a gymmerwyd heb oedi,
 Mewn rhwysg a gorfoledd gan fyddin Cefn Mabli ;
 A'n harwr mewn llonder, yn nghlyw ei ddewr fyddin,
 Gyhoeddodd y Castell yn eiddo ei Frenin.

Pan aeth y storm heibio, yr eglur ganfyddwyd
 Erchylldra'r galanas, a'r difrod gyflawnwyd
 Ar werthfawr fywydau gwrolion y ddwyblaid,
 Y rhai a gydyrwyd i dranc mewn byr ysbaid.
 Colledwyd y ddwyblaid yn anadferadwy,
 Yn ystod byr amser y brwydro ofnadwy.
 Y ffos ger y mur oedd yn llawn celaneddau
 Y rhai dros eu plaid ymladdasant hyd angau ;
 A phan y syrthiasant, eu bedd oedd yn barod—
 Y ffos a'u derbyniodd yn awchus i'w cheudod :
 Ac, O ! 'r fath olygfa tu fewn i'r rhagfuriau,
 Lle'r oedd celaneddan'r gwarchodlu'n bentyrau,
 O dan yr yspwriel yn haner claddedig,
 Yn gymmysg a meini y muriau toredig !
 Ond ni chollwyd amser—prysurodd ein gwron
 I gladdu o'r golwg yr holl laddedigion ;
 Ac yna prysurwyd i rod-di'r magnelau,
 Mewn lleoedd manteisiol y tu fewn i'r muriau ;
 A'r muriau gyfanwyd yn gedyrn a chryfion,
 Fel gallent wrthsefyll holl nerth y gelynon.

Anfonwyd at Cromwell ar frys i'w hysbysu
 Fod byddin Casgwent wedi gorfod rhoi fyny
 Y Castell i'r gelyn, mewn gwarth a diraddiad,
 Gan adael eu harfau wrth wneyd yr enciliad.
 Disgynodd y newydd fel gordd ar ei deimlad,
 A chwerwder ei ysbryd gynhyrfwyd mewn eiliad—
 Yr oedd yn ystyried Casgwent yn brif allwedd
 I agor Deheudir holl Gymru i'r Senedd ;
 A chredai'n ddiysgog mai o law bradwriaeth,
 Y syrthiodd y brif allwedd hon yn ysglyfaeth
 I'r gelyn, a thystiai y gwnai i Syr Trefor
 Ddwyn cosp y fradwriaeth yn rhwymau carcharor.
 Ac er cario'i fwriad ar frys i weithrediad,

A rhoi i'r fradwriaeth (*dybiedig*) lawn daliad,

Anfonodd orchymyn i brif dref Brycheiniog,
 I'r Uwch-gadben Saunders a'i gatrawd herfeiddiog,
 I wisgo eu harfau, a chychwyn heb oedi,
 I wneyd ymosodiad ar Gastell Llanybi,
 Yn Mynwy, preswylfa ardderchog Syr Trefor,
 A gwneuthur y Marchog ei hun yn garcharor.
 Nis gallai Pendragon y Senedd byth adael
 I Gastell mor bwysig hir aros o'i afael ;
 Ac nid oedd un drafferth na thraul idd eu harbed,
 Er mwyn ei adenill, ac adfer y golled ;
 A gwnaeth benderfyniad yr ai yn bersonol,
 I adfer y Castell yn eiddo Seneddol.



CANIAD V.

CYNWYSIAD.

Cromwell ac Ewer, gyda'u byddinoedd unedig, yn dyfod i Gasgwert, ac yn cydymosod arno am dri diwrnod, ond yn aflwyddianus—Cenad yn hysbysu Cromwell fod Poyer Feddw yn gorchfygu llu y Senedd rhag blaen y Mhenfro—Yntau yn gadiel gwarchaead Casgwent dan ofal Ewer—gwarchaead yn cael ei gario yn mlaen yn aflwyddianus am dair wythnos—Newyn yn gorfodi ein harwr i wneyd ymgais i dori trwy rengau y gelyn, ac yn syrthio yn yr ymdrech.

Gwybyddus oedd Cromwell mai cuddiad ei gryfder,
Oedd peidio gwastraffu un eiliad o amser ;
A gwyddai yn dda fod yn rhaid cael nerth dyblyg,
Er adfer i'r Senedd y Castell colledig ;
Ac felly anfonodd orchymyn i Ewer
A'i fyddin ddod ato, er dyblu ei gryfder ;
Ac Ewer ac yntau a'u lluoedd unedig,
Brysurent i adfer y trysor colledig :
A buan cyrhaeddwyd Casgwent yn llwyddianus,
A Chromwell osododd ei luoedd yn drefnus
I wneyd ymosodiad, heb unrhyw amheuaeth
Yn croesi ei feddwl am lwyr fuddugoliaeth.
Ei fegnwl, ei draedlu, a'i feirchlu rhagorol,
Osodwyd yn fuan mewn lleoedd manteisiol ;
A rhoddes i Ewer lywyddiaeth un adran,
Tra yntau lywyddai y gweddill ei hunan.
Y fyddin Seneddol a rifai ei *miloedd*,
Tra na rifai byddin y Castell ei *channoedd*.
A Chromwell cyn gwneuthur ei ruthgyrch beiddgarol,
Anerchodd ei wyr yn y geiriau canlynol :—
“ Fy anwyl wroniaid, i bleidio cyfiawnder,
Ni welwyd un cwmwl erioed ar eich dewrder—
Mae gorthrwm yn ffoi wrth ddnesiad eich camrau,

A rhyddid y deyrnas sy'n nghrog wrth eich harfau ;
 Mae'ch henwau yn unig yn ddychryn i ormes,
 A heddyw cewch lawryf fythola eich hanes—
 Yn llaw'r Hollallwog, chwi ydyw y fflangell,
 I gopsi'r trais bleidwyr sy'n llechu'n y Castell—
 Dangoswch eich gallu, a'ch dewrder arferol,
 A buan daw'r Castell yn eiddo Seneddol!"

Tra'r oedd y Pendragon yn anerch ei filwyr,
 Anogai Syr Nicholas ei ddyrnaid ganlynwyr
 I beidio gwastraffu na phelau na phylor—
 Nad oedd eu cyflenwad fel gellid eu hebgor
 I ddim ond i wneuthur gorchestwaith effeithiol,
 Er tori crib balchder y fyddin Seneddol.
 Anogai hwy hefyd i arfer doethineb,
 Trwy beidio gwneyd rhyfyg i gario gwroldeb
 I ddannedd peryglon y gellid eu gochel,
 Gan fod trai eu byddin hwy eisioes yn isel—
 Ond ymladd fel cewri yn nghysgod y muriau,
 A gosod eu hyder yn nerth y magnelau.

Tra'r oedd yn eu hanog, daeth swyddog Seneddol
 Yn mlaen, a llefarai mewn llais awdurdodol :—
 "Mae Oliver Cromwell" medd ef, "trwy awdurdod
 Y Senedd, yn rhoddi gorchymyn diamod
 I lywydd y Castell ymostwng ar unwaith,
 Cyn cael ei orfodi trwy ddinystr ac anrhaeth."
 I'r swyddog milwrol atebodd ein harwr,
 Nad oedd yn cydnabod awdurdod teyrnfradwr,
 A llefai'n herfeiddiol, mewn llais llawn arwredd,
 Nad oedd yn cydnabod awdurdod y Senedd :—
 "Dos yn dy ol" meddai, "a dywed wrth Cromwell,
 Mae'm teyrn biau'r Castell, a'i fod yn ddiögel."

Dychwelodd ef, ac am ychydig amser,
 Dystawrwydd beichus chwyddai bwysau pryder

Gwarchodlu'r Castell, tra yn manwl edrych,
 A gwyllo pob cyfeiriad, amgylch-ogyloch.
 Yn fuan wele'r fyddin fawr Seneddol
 Mewn cyffro'n gwisgo agwedd ymosodol
 Ar lan yr Wy, yn llinell ar ol llinell,
 Yn dechreu dringo'r llechwedd at y Castell ;
 A'n harwr wyliai'r ysgogiadau'n fanol,
 A phan y daethant hwy i fan neillduol,
 O'i guddfan yn y mur bytheiriodd magnel,
 Gan roddi hèn i holl fyddinoedd Cromwell :
 A phan ddeallodd Cromwell fod *magnelau*
 Mewn lleoedd taclus yn y cedyrn furiau,
 Fe deimlodd frathiad blaenllym siomedigaeth,
 A braidd na gwodd llawryf buddugoliaeth
 Yn llaw ei hyder, gan mor groes i'w deimlad
 Oedd cael fod megnyl yn y cryf adeilad :
 Gwybyddus ydoedd nad arferai muriau
 Casgwent *cyn hyn*, lettya erch fagnelau.
 Dyrysodd hyn ychydig ar ei gynllun,
 A theimlai fod *gwir arwr* ganddo'n elyn.
 Ond mewn cyflymdra teilwng o'i alluoedd,
 Fel swyddog doeth, ad-drefnodd ei fyddinoedd—
 Ei gyflegrfeydd osododd yn fanteisiol,
 I gydymosod ar y muriau nerthol,
 A hyny heb beryglu ei gatrodau,
 Tra'n dringo at y Castell dros y llethrau,
 Ac yna fe ddechreuodd y rhuthrgyrchiad
 Mewn difrifoldeb, gyda phenderfyniad
 Y mynai ef cyn diwedd y diwrnod,
 Ddarostwng y gwarchodlu i ufudd-dod.

Yr oedd ei luoedd mewn ysbrydoedd campus,
 Ac oll yn ufudd i'w lywyddiad medrus ;
 A phan y rhoddodd iddynt ei orchymyn,
 I wneuthur ymosodiad ar y gelyn,

Symudai'r rhengau yn y blaen yn wrol
 I fyny'r llethrau at y Castell nerthol,
 Ymwithiai rhengoedd ereill gydag egni
 Yn mlaen, er cyrhaedd penau y clogwyni
 O gylch y Castell, er cael lle manteisiol
 I saethu dros y muriau blwm dinystriol.
 Tra'r rhai'n o eiddo Cromwell yn prysuro,
 A'i gyflegrfeydd o bedwar pwynt yn tanio
 At furiau'r Castell, er mwyn cynorthwyo
 Y rhengoedd beiddgar ar y llethrau'n dringo,
 Yn dra disymwth, wele holl fagnelau
 Y Castell, yn cyd-danio ar y rhengau,
 A'u heyrn belenau'n gwneyd adwyau mawrion
 Trwy ddynol gnawd, gan liwio'u llwybrau'n gochion,
 A gadael ar eu hol ar hyd y llwybrau,
 Ugeiniau yn eu gwaed yn gelaneddau ;
 A chyn bod swm y megnyl wedi darfod,
 O ddrylliau y gwarchodlu wele gawod
 O blwm dinystriol i blith rhengau'r Senedd,
 Yr hyn a ychwanegai y celanedd.
 Er hyn ni lwfrhäodd y Cromweliad,
 Ond dringent at y muriau fel gwroniaid,
 Gan danio'n ffyrnig at warchodlu'r Castell,
 A'u chwyn belenau'n disgyn megys gronell
 O amltra ar y muriau, tra cymylau
 O fwg pylorog yn ymddyrrchu'n dorchau
 O ddrylliau'r lluoedd, gan dewychu'r awyr,
 A ffurfio colofn rhwng y ddwyblaid filwyr.
 Ha ! wele megnyl muriau'r Castell etto,
 Fel croch daranau agos, yn dyrüo,
 Gan wneyd galanas erchyll a dinystriol,
 A gyru lluoedd Cromwell yn eu gwrthol.

Cynnygiwyd droion eilwaith at y muriau,
 Ond aflwyddiannus fu eu holl geisiadau ;

Ac er i Cromwell arfer ei holl ddewrder,
 Aeth llafur y diwrnod oll yn ofer.
 Aeth tranoeth heibio, ar ol brwydro caled
 Ar hyd y dydd, heb wella dim o'i dynged ;
 Ac er parhau'n egniol i ymosod
 Yn greulawn ar y Castell dri diwrnod,
 Fe fethodd Cromwell Fawr a'i holl ymdrechion,
 A chyrhaedd buddugoliaeth ar ein gwron.
 Dydd ar ol dydd ymladdai'n harwr enwog,
 Gan ddangos dewrder teilwng o'n Caradog ;
 Neu deilwng o Leonidas o Sparta,
 Yn dewr amddiffyn Bwlch y Thermopyla :
 Ac nid enciliai'r un o'i ddyrnaid dewrion
 Oddi wrth eu gynau, ond fel hyf wrolion,
 Yn erbyn llu annghydbwys ymladdasant,
 A'r Castell er ei waethaf a ddaliasant.

Nid oedd gwroldeb "*Chwe' Chant*" y Crimea,
 Yn fwy na dewrder "*Yr Wyth Ugain*" yma,
 Y rhai gadwasant Gastell Gwent yn ddiogel,
 Yn erbyn miloedd dan lywyddiad Cromwell.
 Ar ol ymdrechu tridiau'n aflwyddiannus,
 A chael bob dydd golledion trychinebus,
 Yn nghwpan Cromwell rhoddwyd mwy o chwerwder,
 Gan genad draithai fod y meddwyn *Poyer*, (15)
 A'i arfog lu'n cyflawni erch ddifrodedd
 Yn Mhenfro ar fyddinoedd dewr y Senedd—
 Ei fod yn rhuthro'n annhrugarog arnynt,
 Gan gludo pobpeth rhag ei flaen fel hyrddwynt.

Gorfodwyd Cromwell, gan wrhydri Poyer,
 I adael gwarchae Gwent yn ngofal Ewer ;
 Gan roddi iddo gynllun o'r gwarchaëad,
 I'w gario'n mlaen ar ol ei ymadawiad ;
 A rhoes orchymyn caeth ar iddo fynu

Y Castell, trwy newynu y gwarchodlu :
 Ac er mor anhawdd ganddo ydoedd cychwyn,
 Gan adael Castell Gwent yn meddiant gelyn,
 Am y tueddai hyn i roi diraddiad
 I'w urddas ef, a phylu ei gymmeriad,
 Gan iddo fethu dwyn i ben ei amcan,
 Er llywio'r ymosodiad yno'i hunan,
 Er hyn, angenrhaid a osodwyd arno
 I fyn'd a rhan o'r fyddin tua Phenfro.
 Nid rhyfedd iddo deimlo siomedigaeth—
 Ei arfer ef oedd cyrhaedd budugoliaeth ;
 Ond yn Nghasgwent rhoed gwaddod siom i'w gwpan,
 Gan un a senai'n "*Bold and daring Welshman*."
 Ac er mai sen bwriadai ef ei frawddeg,
 Clod gwirioneddol oedd i Gymro'n Seisneg.

Cychwynodd Cromwell tranoeth yn siomedig,
 A'i feddwl fel ei lu yn archolledig ;
 A phan yr ymadawodd, gwelodd Ewer
 Mai llwyr wallgofrwydd, ac ynfedrwydd ofer
 Fuasai tra mynychu y rhuthriadau—
 Mai dinystr sicr fuasai i'w gatrodau ;
 A bu dan orfod d'od i'r penderfyniad
 O newid cynllum gwreiddiol y gwarchaead.
 Ei dân beiriannau, a'i fagnelau nerthol
 A gadwai i weithredu'n amddiffynol,
 Tra'i lu'n gwneyd ffosydd dyfnion, a gwrthgloddiau,
 Er nesu'n mlaen *yn raddol* at y muriau—
 O ddydd i ddydd gweithiasant nes cael llinell
 O gloddiau pridd o amgylch muriau'r Castell,
 Nes oedd ein harwr a'i ychydig ddewrion
 O fewn y Castell megys carcharorion ;
 A gwyliadwriaeth fanwl arnynt yno,
 Tra gobaith gwardigaeth wedi cilio :
 Ond hoffach ganddynt oedd croesawi angau
 Na phlygu dim i grefu am delerau.

Ond fe ddaeth gelyn gwaeth atynt i'r Castell,
 Ac a wnaeth erchyll waith gyda'i drom fflangell—
 Newyn drwg gyda gwg, syllai'n mhob gwyneb,
 Heriai hwn nerth pob gwn—gwawdiai wroldeb :
 Hwn a roes ing a loes chwerw i'n gwron,
 Ond ei lu iddo fu'n ufudd a ffyddlon :
 Er fod trwm wadnau plwm newyn yn gwasgu,
 Etto'u dwyn heb un cwyn wnai y gwarchodlu.

Er i wange fwgwth trange arnynt heb aros,
 Dal yn bur fel y dur wnaethant dair wythnos ;
 Ond parhau i wanhau oeddynt yn ddyddiol,
 Nes i'w nerth mawr ei werth gilio yn raddol ;
 Yna pan oeddynt wan gan doster newyn,
 Ceisient hwy dori trwy nerthoedd y gelyn ;
 Ond er siom hynod drom syrthiodd ein harwr—
 Syrthio wnaeth yn ei waith fel gwych deyrngarwr.

Do, syrthiodd ef, ond syrthiodd dan ei goron,
 A'i enw, fel ei glod, barhant yn wyrddion ;
 Bu farw fel bu fyw, yn ddewr a gwrol,
 O blaid ei deyrn, yn hyf, a Chydwybodol.
 Disgynodd swm ei gwmp ar glustiau'r Senedd, (16)
 Gan adsain ar bob tafod sain gorfoledd.

TREFOR.



N O D I A D A U.

(1.) “Mac Castell Gwent yn gorwedd, Ar erchwyn gwely Gwy,”—Adeiladwyd Casgwent y waith gyntaf gan Fitz-Osborne, Iarll Henffordd, yn yr unfed-ganrif-ar-ddeg; a gelwir ef yn hen *Domesday Book* Lloegr wrth yr enw Castelum de Estrighoiel. Er fod ychydig o weddillion y Castell cyntaf yn weledig yn awr, amlwg yw, yn ol yr haneswyr goraf, mai yn amser Iorwerth I., a'i fab Iorwerth II., y cafodd y Castell ei helaethu, a'i gadarnhau; fel ag i fod yn un o brif amddiffynfeydd y wlad. Saif ei adfeilion ar ben craig serth ar lan afon Gwy; ac y mae rhai o'r tyrau fel pe byddai lle eu sylfeini wedi eu naddu allan o'r graig. Mac arwynebedd yr adfeilion dros dair erw; ac o ffurf hirgul.—*Dugdale's England and Wales*, vol. III., p. 389.

(2.) “Dy gyfaill *Grime*, medd llais oedd adnabyddus,”—Yr oedd Grime yn un o'r rhai gymmerwyd yn garcharorion yn mrwydr St. Ffagan, gan fyddin y Senedd.—*Tales and Sketches of Wales*, p. 371.

(3.) “Ydwyf dy gyfaill *Rupert* dros fy Mrennia.”—Yr oedd Rupert wedi ei bennodi gan Charles I. yn brif swyddog milwrol ar Swyddi Caerloyw, Gwlad yr Haf, a'r cylchoedd, ac yn brif geidwad Bristol.—*Hanes Cromwell*, t.d. 31.

(4.) “Daeth Llwyd o'r Brunant ac ychydig ddewrion.”—Yr oedd Llwydiaid y Brunant (neu Briwnant, yn hytrach) yn hynod deyrngarol yn amser Cromwell, a daeth Huw Llwyd a chatrawd o drigolion Sir Gaerfyrddin i gynorthwyo y cynghreiriaid yn Mrwydr St. Ffagan: ac yr oedd Llwyd ei hun yn mhlith y lladdedigion yno. Saif palas hynafol y Brunant yn ardal Gynwil Geio; a phreswylir ef yn awr gan ddisgynydd o'r Huw Llwyd uchod.

(5.) “Gan y teyrnfradwr Prichard a'r Castellwyr.”—Yr oedd y Milwriad Prichard o Lancaiach yn swyddog yn myddin y Brenin. Bu y Brenin Charles I., yn ciniawa gyda'r Milwriad yn hen balas Llancaiach, Awst 5, 1645: a dyrchafwyd Prichard yn Geidwad Castell Caerdydd. Modd bynag, troes y Milwriad o blaid y Senedd, ac yn mis Mehefin 1647, gomeddodd roddi y Castell i fyny i Syr Henry Stradling; ac felly daeth yn bleidiwr cyhoeddus i'r blaid Seneddol.

(6.) “A'r gelw Marmaduke Lloyd o Faesyfelin.”—Dywed rhai haneswyr mai Syr Marmaduke Lloyd o Faesyfelin, ger Llanbedr-pont-Stephen arweiniai fyddin Ceredigion yn St. Ffagan. Ond ymddengys mai ei fab, sef Mr. Marmaduke Lloyd oedd, ac nid y marchog ei hun. Cafodd ef ei gymeryd yn garcharor.—*Tales and Sketches of Wales*, p. 371.

(7.) “Ac yntau Laugharne hyf a'i fyddin enwog.”—Rowland Laugharne, ydoedd frodor o Sir Benfro; ac yr oedd yn un o'r prif enwogion yn y Rhyfel Cartrefol. Dechreuodd ei yrfa yn ngwasanaeth Iarll Essex, trwy ddylenwad yr hwn y cafod ei godi i safle uchel yn myddin y Senedd. Wedi ei godi yn *Major-General*, dangosodd wroldeb a medr mawr i ddarostwng gallu y Brenin yn Nghymru; ac am ei wasanaeth, darfu i'r Senedd, yn 1645, roddi etifeddiaeth Slebech, yn Mhenfro, yn feddiant iddo ef a'i etifeddion. Yn gynar yn 1648, unodd Laugharne a'i fyddin â phlaid y Brenin, ar yr amod ei fod i dderbyn £1300 o dal am ei wasanaeth. Yr oedd ef a'i fyddin yn cymmyrd rhan flaenllaw yn Mrwydr, St. Ffagan yn erbyn Horton. Ffôdd Laugharne o faes y frwydr, ac enciliodd i Tenby, ac oddi yno at Poyer Veddw, i Gastell Penfro. Diangodd y Cadben Powell yno hefyd: a daliasant y Castell yn erbyn Cromwell ei hun, o ganol mis Mai, hyd yr unfed-ar-ddeg o Orphenaf 1648; pryd y cymmerwyd y tri yn garcharorion. Buont yn y carchar yn Windsor hyd Ebrill, 1649, pryd y dygwyd hwy i brawf yn Llundain, ac y condemniwyd hwy farwolaeth. Wedi hyny, caniatwyd iddynt fwrw coelbren pa un o honyr. t oedd i golli ei fywyd. Syrthiodd y coelbren ar Poyer, a chafodd ei saethu yn farw, Ebrill 25, 1649, yn Covent Garden. Pasiwyd penderfyniad yn y Senedd ar y 18fed o Hydref, 1649, i ymddifadu Laugharne o Ystad Slebech; ond safodd ef a lluaws o garcharorion ereill eu rhyddau.—*Williams' Eminent Welshmen*, p. 271.

(8.) “I ymladd byth gofadwy Frwydr St. Ffagan.”—Dywed Malkin yr hanesydd, vol. I., pp. 225-6, fod Sir Nicholas Kemeys wedi myned a mil o filwyr ar ei draul ei hun i Frwydr St. Ffagan, ac mai oddi yno yr aeth tua Chasgwent, lle y bu yn ymladd yn ddewr am tua thair wythnos yn erbyn plaid y Senedd. Yr oedd brwydr St. Ffagan yn bwysig iawn yn mhob ystyr; a'r bwysicaf yn ddiarheueu a ymladdwyd yn Nghymru rhwng plaid Charles I. a'r Senedd. Yr oedd y fyddin Freninol yn rhifo 8,000 o wyr, a byddin y Senedd yn 5,000, neu ychwaneg. Ymladdwyd y frwydr Mai 8, 1648. Llywyddid y Cromweliad, neu'r Seneddlu gan y Maeslywyd Horton, yr hwn arweiniai y ganol-fyddin. Y Lieutenant Godfrey a lywyddai y meirehlu a'r aden aswy i'r fyddin; tra y llywyddid yr aden ddeheuol gan y Cadben John Oakey, a chwech catrawd o feirch filwyr. Y Cadben Garland a lywyddai y tân beirianau (firelocks) sef math o fagnelau, 160 o honynt; a'r Major Barton, a'r Cadben Mercer yn blaenori y dragoons. Y llywyddion yn myddin y Brenin oeddynt Syr Edmund Stradling, St. Donat's; Syr Nicholas Kemeys, Cefn Mabli; Syr Edward Carne, Ogsמידs Ash; y Cadben Powell, y Major-General Rowland Laugharne, y Cadben Evan Thomas, Sir W. Lloyd, Mr. Huw Llwyd, yr Uchgadbeniaid Wgan (o Benfro), Hodskin, Lewis, &c. Ar ol brwydr galed am ddwy awr, llwyr orchfygwyd plaid y Brenin; ond llwyddodd ein harwr, a lluaws ereill i ddianc o'r maes yn ddiangol, ac heb eu cymeryd yn garcharorion. Ysgrifonodd y Milwriad John Oakey lythyr at Cromwell ar y maes, yn union ar

ol y frwydr, yn yr hwn y dywedai fod lladdedigion byddin y Brenin yn 40 am bob un i fyddin y Senedd: a bod 2,500 o garcharorion wedi eu cymeryd eisioes. Mewn ysgrif ddiweddarach a ysgrifenyddwyd gan un o'r Seneddwyr, rhoddir y manylion canlynol: "Yn mhlith y carcharorion y mae y Major John Stradling, y Milwriad Philip Gamage, y Milwriad Wgan, Mr. Marmaduke Lloyd, y Milwriad Harris, Grime, a Gamis; yr Uwchgadbeniaid Phillips, Dawkins, Steadman, Christopher Mathew; y Cadbeniaid Batton, a Caradoc; yr Isgadbeniaid Lewis, ac Hodskin." Mewn ysgrif arall, dywedir fod pedwar ugain o filwriaid a swyddogion ereill, yn nghyda 70 o is-swyddogion wedi eu cymeryd yn garcharorion; a'r Doctor Lloyd, Mr. Marmaduke Lloyd, Maesyfelin, Llanbedr; Mr. Hugh Lloyd, Mr. Walcott, Syr W. Lloyd, Mr. George Anderson, Mr. Roger Gamis, Mr. Walter Powell, Mr. Roger Williams, Mr. Devereux Grafton, 250 o foneddwyr, 2,600 o filwyr cyffredin; a 4,000 o *club men*, a yrwyd ar fío i'w gwahanol breswylfeydd. Mae yn anhawdd gwybôd beth sydd i'w ddeall wrth y *club men*, pa un a'i math o gymdeithaswyr oeddynt, neu ynte rai yn defnyddio pastynau. Dichon mai yr olaf feddylir, ac felly arfau gwael oedd gandynt.—*Tales and Sketches of Wales*, p. 371.

(9.) Ar feirch golygus gwelid *Cadben Godfrey*.

(10.) Yn nghyda'r dewr Filwriad enwog *Oakey*. Ceir hanes am safle byddinoedd y swyddogion hyn yn mrwydr St. Ffagan, yn *Tales and Sketches of Wales*.

(11.) "Er fod Syr Trefor Williams o Langybi."—Yr oedd Cromwell a Syr Trefor Williams yn bersonol gyfarwydd a'u gilydd; ac yn ol pob tebyg yn berthynasau go agos. Y mae yn ddigon hysbys bellach fod Oliver Cromwell yn ddisgynydd o Richard Williams, *alias* Cromwell, o blwyf Llanisen, yn Morganwg; ac ymddengys fod Williamsiaid Llangybi yn perthyn i'r un teulu. Yr oedd Syr Nicholas Kemeys yn briod â merch Syr Rowland Williams o Llangybi; ac o herwydd hyn, dywed rhai haneswyr fod Syr Nicholas a Cromwell yn berthynasau. Gosododd Cromwell Syr Trefor Williams yn flaenor ar fyddin y Senedd yn Mynwy, tra yr ymdduriedai i'r Uchel Sirydd Mr. Morgan (Un o deulu Tredegar) am ei gydweithrediad. Pan enillodd Syr Nicholas Gastell Gwent oddiar Syr Trefor, credodd Cromwell fod Syr Trefor a Morgan wedi troi yn fradwyr; ac a anfonod orchymyn caeth i'r Uwchgadben Thomas Saunders, llywyd byddin y Sened yn Mrycheiniog, i fyned a dal y ddau, a'u dwyn yn garcharorion o'i flaen ef. Rhoddes ddesgrifiad manwl o berson Syr Trefor, fel y gallai Saunders ei adnabod. Dywedai hefyd ei fod yn "ddyn cyfrwys, hyf, a phenderfynol; a bod ei dy yn Llangybi yn llawn arfau—bod ei gymydogion yn ddrwgfwrriadus, ac y gwnaent eu goreu i rwystro Saunders i'w gymmeryd yn gareharor, &c."—*Hanes Cromwell*, t.d. 51

(12.) "Yn ngweithdy'r gwydh Syr Edward Lewis, Farchog."—Syr Edward Lewis o'r Van, ger Caerffili, ac un Cook, oeddynt berchenogion dwy ffwrnes yn mhlwyf Merthyr Tydfil, y rhai a elwid Fffwrnes Pont Rhun, a Fffwrnes Panty-

gwaith, yn amser Charles I.; ac yr oedd y ddau yn bleidiol iawn i'r Brenin. Yr oedd gan y Brenin dŷir ffwrnes o'i eiddo ei hun yn Fforest y Dean, y rhai a ddiwallent y fyddin â magnelau: ond yn fuan wedi toriad allan y rhyfel rhyngddo ef a'r Senedd, darfu i'r blaid Seneddol ddinystrio y tair ffwrnes yn y Fforest, yn 1642. Barna amryw haneswyr mai Syr Edward Lewis, a'i gyfaill Cook, oedd yn diwallu y fyddin Freninol â magnelan, ar ol i ffwrnesi y Brenin gael eu tori. Y mae'r ffaith ddarfod i fyddin Horton, wrth fyned tua St. Ffagan, lwy'r ddinystrio Fffwrnesi Pont Rhun, a Phontygwaith, yn lled awgrymu mai yr amcan oedd eu hanalluogi i wneuthur magnelau. Y mae gweddillion yr hen ffwrnesi hyn i'w gweld yn bresenol—un ger Troedyrhiw, Merthyr, ar lan afon Tlf, a'r llall tua thair milldir yn is yn y cwm.


(13.) “A chyrrhaeddasant *Mathern* yn llwyddiannus.”—Yn 1404, darfu i Owen Glyndwr ddinystrio y palas Esgobol yn Llandaf; a darfu i'r Esgob John de la Zouche, yr hwn a urddwyd Mehefin 7, 1508, adeiladu Palas Esgobol yn Mathern, tua dwy filldir o Gasgwent, ac yno y preswyliai Esgobion Llandaf o amser Owen Glyndwr hyd amser Chwildroad Cromwell; ac yno fel rheol y claddwyd hwynt yn y cyfnod hwnw; ond nid oes hanes am un Esgob wedi ei gladdu yno ar ol Dr. W. Murrey, yr hwn a fu farw yn 1638.

(14.) “Yn fwy na dewrder yr *Wyth Ugain* yma.”—Fel y canlyn dyry Dugdale yr hanes, mewn cysylltiad a Chasgwent. “The last attack it encountered was in the reign of Charles I., when it was captured, after a stout defence, by the Parliamentary forces, in October, 1647; but in the following May it was surprised by a bold Welshman, Sir Nicholas Kemeys, at the head of a small party of Royalists. The speedy regaining of it was made a point of honour by Cromwell, who himself proceeded against it with several companions of foot, four of horse, and a good park of artillery. The *town* he quickly made himself master of, but the *Castle* held out resolutely, although the garrison consisted but of 160 men.”—*Dugdale's England and Wales*, vol. III., p. 389.

(15.) “Gan genad draethai fod y meddwyn Poyer.”—Poyer Feddw y gelwid ef yn gyffredin; ac ymddengys iddo roddi mwy o drafferth i Cromwell yn Nghymru na neb arall; a bernir mai o achos ei ffyrnigrwydd, a'r galanas a gyflawnodd, y gomeddwyd ei ryddhau ef fel y carcharorion ere'll.

(16.) “Disgynodd swm ei gwypm ar glustiau'r Senedd, Nes adsain ar bob tafod sain gorfoledd.”—Ychwanega Dugdale fel y canlyn:—“Cromwell was unable to await the slow progress of the siege, which he left to be completed by Colonel Ewer, who at length took the Castle by assault, but not till the gallant Sir Nicholas and forty of his men had been killed, and the remainder were nearly starved. *So much importance did the Parliament attach to its possession, that it presented fifty pounds to the messenger who brought the news of the successful assault, and returned a vote of thanks to Colonel Ewer and his soldiers.*”—*Dugdale's England and Wales*, vol. III., p. 389.





UNIVERSITY OF ILLINOIS-URBANA

891.661 J713E C001

Epic poem on Sir Nicholas Kemeys the c



3 0112 08915997